Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Yr Ardoll Brentisiaethau: flwyddyn yn ddiweddarach

Awst 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddESS**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddESS@cynulliad.cymru**
Twitter: **@ SeneddESS**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Yr Ardoll Brentisiaethau: flwyddyn yn ddiweddarach

Awst 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafnidiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Russell George AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Hefin David AC**
Llafur Cymru
Caerffili



**Vikki Howells AC**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Mark Isherwood AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Adam Price AC**
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**David J Rowlands AC**
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... 5

**Argymhellion** ..... 6

**Casgliadau** ..... 8

**1. Cyflwyniad** ..... 11

Cefndir ..... 11

Y cyd-destun ..... 11

**2. Cyfathrebu ac Ymgysylltu** ..... 13

Ymgynghoriad ..... 13

Y diweddaraf ar ymgynghori ..... 13

Gwybodaeth ..... 14

Y wybodaeth ddiweddaraf ..... 14

Ymgysylltu'n ehangach ..... 15

**3. Materion trawsffiniol, disgwyliadau a chludadwyedd** ..... 18

Y diweddaraf ..... 18

**4. Meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth** ..... 22

Prentisiaethau lefel is ..... 22

Galw newydd ..... 24

**5. Cyllid** ..... 26

Cyllid Llywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ..... 26

Y diweddaraf ..... 27

Gwerth am arian i gyflogwyr ..... 27

**6. Yr effaith ar y sector cyhoeddus yng Nghymru** ..... 30

Y diweddaraf ..... 30

# Rhagair y Cadeirydd

Ers cyhoeddi Ardoll Brentisiaethau Llywodraeth y DU yn 2015, mae Llywodraeth Cymru a chyflogwyr Cymru wedi amlygu nifer o bryderon ynghylch ei gweithredu yng Nghymru. Mae ein Pwyllgor wedi gwrando ar y pryderon hyn ac wedi penderfynu ymchwilio iddynt yn fanylach. Yn sgil yr ymchwiliad, cyhoeddwyd adroddiad ym mis Mawrth 2017, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion oedd wedi'u hanelu i helpu cyflogwyr Cymru i addasu i'r Ardoll a fydd yn cael ei gosod.

Ar y pryd, gofynnom i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni o ran effaith yr Ardoll flwyddyn ers iddi gael ei chyflwyno. Gwrthododd wneud hynny felly penderfynwyd y byddem yn adolygu'r sefyllfa ein hunain.

Rydym wedi gweld bod rhai o'r heriau a'r pryderon a nodwyd gennym flwyddyn yn ôl yn ein hadroddiad cychwynnol yn dal heb gael eu datrys yn llawn. Mae yna gwestiynau o hyd ynghylch cyfathrebu ac ymgysylltu â chyflogwyr o bob maint, cludadwyedd a pherthnasedd cymwysterau a'r lefel y mae pob cyflogwr yng Nghymru yn teimlo y cânt gymorth i ddatblygu a thyfu staff newydd.

Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod yr Ardoll yn golygu bod mwy o gyflogwyr yn canolbwyntio ar y cyfleoedd posibl a ddaw yn sgil prentisiaethau. Rydym yn awyddus i weld busnesau bach a chanolig nad ydynt yn talu'r Ardoll yn cynnal eu lefel bresennol o fynediad i brentisiaethau a bod y nifer o bobl ifanc a gaiff eu derbyn ar brentisiaethau yn cael ei gynnal, os nad ei gynyddu.

Mae'r Pwyllgor wedi rhoi pwyslais cryf ar brentisiaethau yn gynnar yn y Cynulliad hwn. Gwnaed hynny gan eu bod yn ffordd bwysig ac effeithiol o newid bywydau unigolion a thyfu busnesau Cymru a'r economi ehangach. Rydym yn cydnabod bod y sefyllfa yn amlwg yn dal i ddatblygu, ond byddwn yn parhau i fod yn wyliadwrus i sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael mor eang â phosibl i gynifer o bobl â phosibl.

Russell George
Cadeirydd
Y Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Gorffennaf 2018

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i adolygu aelodaeth Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru newydd a sicrhau bod llwybrau addas i bob cyflogwr ddylanwadu ar waith y Bwrdd hwn. I'r perwyl hwn, dylai'r Bwrdd weithio'n dryloyw a sicrhau bod ei bapurau a chanfyddiadau yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu mewn modd amserol a phriodol. Tudalen 17

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i adeiladu ar y momentwm a grëwyd gan yr Ardoll ac annog mwy o ymgysylltu rhwng cyflogwyr a phobl ifanc. Dylai gwaith ymgysylltu geisio hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws fframweithiau, gan gynnwys drwy'r Gweithgor Prentisiaethau Cynhwysol newydd, a ddylai gyhoeddi ei gynllun gweithredu a'i rannu â'r Pwyllgor hwn o fewn 12 mis i'r cyfarfod cyntaf. Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU a gwledydd datganoledig eraill i symleiddio'r broses weinyddol i gyflogwyr ac yn canfod nodweddion cyffredin rhwng dulliau'r DU a gwledydd datganoledig. Tudalen 21

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried yr argymhellion a wneir yn "The Great Training Robbery", a gweithredu ar y rhai sy'n gymwys yng nghyd-destun Cymru. Tudalen 21

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi gwybodaeth lefel uchel am ba gymorth ar gyfer dysgu yn y gweithlu sydd ar gael i gyflogwyr yng Nghymru, gan gynnwys prentisiaethau a hyfforddiant ehangach yn y gweithle, ac i rannu'r wybodaeth hon drwy Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru a chyrff neu sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr. Tudalen 21

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir ar yr effaith y bydd ei ffocws ar brentisiaethau lefel uwch yn ei chael ar brentisiaethau lefel is. Lle y bo modd, dylid lliniaru'r effaith a lleihau nifer y prentisiaethau lefel is ar raddfa sy'n unol â darpariaeth trefniadau hyfforddiant amgen. Tudalen 25

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud i bobl i gael prentisiaethau a fydd yn eu galluogi i gwrdd â'r heriau a ddaw yn sgil awtomeiddio fel rhan o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol. Tudalen 25

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r ganran o bobl ifanc sy'n mynd i'r gweithlu i ddilyn prentisiaethau, a faint o brentisiaethau a ddefnyddir i uwchsgilio staff presennol. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei rhagdybiaeth bod gweithio yn y sectorau sylfaen yn cyfateb i gapio sgiliau a chyrhaeddiad. Mae'r Pwyllgor yn galw am eglurder gan Lywodraeth Cymru ar yr hyfforddiant a chymorth sydd ar gael yn lle prentisiaethau Lefel 2, a sut mae'r cymwysterau sydd ar gael i gyflogeion yn y sectorau sylfaen yn eu paratoi ar gyfer dysgu lefel uwch. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn i Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru archwilio sut y gall cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant gydweithio i wella canlyniadau gwerth am arian sy'n cynrychioli ansawdd da ac sydd fwyaf addas i'r cyflogwr, tra'n diogelu cludadwyedd cymwysterau. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhelliad blaenorol yn y ddogfen *Prentisiaethau yng Nghymru*, Chwefror 2018, lle gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn mewn egwyddor gyda'r galwad am gardiau bws neu drên rhatach i brentisiaid, yn dibynnu ar ganlyniadau ei ymgynghoriad ar "deithiau bws rhatach ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru". Gan fod crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi "cefnogaeth gref iawn o blaid cynnwys pobl a oedd yn dilyn rhaglenni prentisiaeth cydnabyddedig (85%)", mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad i gael cardiau bws neu drên rhatach i brentisiaid. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod ffyrdd arloesol o gefnogi prentisiaethau a dysgu arall yn y gweithlu ar gyfer nifer cynyddol o rolau. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref i gynyddu eu hymdrechion i ddatrys y mater o ariannu prentisiaethau'r heddlu yng Nghymru, gan sicrhau bod yr heddluoedd yn cael gwybod yn llawn am unrhyw gynnydd o ran y trafodaethau. ........ Tudalen 32

# Casgliadau

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwahaniaethau rhwng y ddwy wlad ac mae'r ystadegau yn dangos bod nifer y prentisiaethau sy'n dechrau yn Lloegr wedi lleihau. Fodd bynnag, mae o'r farn bod asesiad y Gweinidog o berfformiad y system yng Nghymru yn canolbwyntio gormod ar ei gwahaniaeth â'r system yn Lloegr, yn hytrach na bod yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn. .................Tudalen 12

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei gefnogaeth i farn y Gweinidog na fyddai ymgynghoriad llawn o ganlyniad i Lywodraeth y DU yn cyhoeddi'r Ardoll o reidrwydd wedi bod yn ddymunol. ..............................Tudalen 16

**Casgliad 3.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen clir dros ymgysylltu'n eang ac yn ystyrlon â chyflogwyr yng Nghymru sy'n dymuno dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r fframwaith sgiliau prentisiaethau, y mae rhai ohonynt yn dal i deimlo nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am sut gall y rhaglen yng Nghymru helpu i ddatblygu eu gweithlu. Mae'r Pwyllgor yn edrych ar Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru newydd i gyflawni'r rôl honno. .......................Tudalen 16

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen i gyflogwyr yng Nghymru gael gwybodaeth briodol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi pecyn cyfathrebu diwygiedig ar gyfer cyflogwyr cyn yr haf. ......Tudalen 16

**Casgliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod yr Ardoll wedi canolbwyntio ar ddarparu prentisiaethau, gan greu cyfle i adeiladu ar fomentwm ac ehangu'r drafodaeth i bobl ifanc a'u rhieni. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi'n flaenorol pa mor bwysig yw gwneud hynny mewn ffordd sy'n hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth ac felly'n croesawu'r penderfyniad i sefydlu'r Gweithgor Prentisiaeth Cynhwysol a datblygu'r offeryn asesu. ..............................Tudalen 17

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu o glywed bod rhai cyflogwyr yn dewis darparu prentisiaethau drwy'r system yn Lloegr yn unig. Ymddengys bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i'w canfyddiad bod y system yng Nghymru yn llai hyblyg a ddim yn rhoi dylanwad uniongyrchol iddynt dros gynnwys yr hyfforddiant. ..............................Tudalen 20

**Casgliad 7.** Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu o glywed bod cludadwyedd cymwysterau yn parhau i fod yn broblem, er roedd yn falch bod hwn yn un maes o dair blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Gweinidog. ..............................Tudalen 20

**Casgliad 8.** Mae diffyg nodweddion cyffredin rhwng gwledydd y DU yn fater i rai o fusnesau ar draws y DU. ..............................Tudalen 20

**Casgliad 9.** Yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2018, “Prentisiaethau yng Nghymru”, dywedodd y Pwyllgor ei fod yn gefnogol i’r prentisiaethau lefel gradd ac yn croesawu cyflwyno opsiynau gradd prentisiaid newydd. Mae’r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn derbyn ei argymhellion cynharach ar y mater hwn ac yn edrych ymlaen i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu a darparu prentisiaethau gradd ym mis Hydref 2018. .......... Tudalen 20

**Casgliad 10.** Mae’r Pwyllgor yn pryderu bod dryswch o hyd ynghylch beth mae’r rhaglen brentisiaethau a’r rhaglen sgiliau ehangach yn y gweithlu yn eu cynnig i gyflogwyr yng Nghymru, a chymhlethdod canfyddedig y system. .......... Tudalen 20

**Casgliad 11.** Lle mae gwersi wedi’u dysgu mewn mannau eraill, fel y rhai a nodir yn yr adroddiad “The Great Training Robbery”, dylid eu hystyried yng nghyd-destun Cymru a’u gweithredu, lle bo hynny’n berthnasol. .......... Tudalen 21

**Casgliad 12.** Mae’r Pwyllgor yn cydnabod ac yn gefnogol o anogaeth Llywodraeth Cymru o brentisiaethau lefel uwch i ddiwallu anghenion cyflogwyr yn y dyfodol, yn arbennig yn wyneb yr heriau a chyfleoedd rydym yn rhagweld a ddaw yn sgil awtomeiddio, y cyfeirir ato’n eang fel “y pedwerydd chwyldro diwydiannol”. Fodd bynnag, mae angen cymwysterau lefel is fel pwynt mynediad ar gyfer staff, ac i ddiwallu anghenion presennol diwydiannau a sectorau. .......... Tudalen 24

**Casgliad 13.** Roedd cyflwyno’r Ardoll yn creu disgwyliadau i gyflogwyr sy’n talu’r Ardoll a rhai nad ydynt yn talu’r Ardoll, gan gynnwys rhai nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod mewn sector blaenoriaeth prentisiaeth. Lle nad yw’r disgwyliadau hynny wedi’u bodloni, mae cyflogwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael i lawr. .......... Tudalen 25

**Casgliad 14.** Mae’r Pwyllgor o’r farn bod ffocws Llywodraeth Cymru ar ddilyniant prentisiaeth yn rhesymol. Fodd bynnag, nid yw’r Pwyllgor yn cytuno â diffiniad y Gweinidog o’r ‘Economi Sylfaen’ ac o’r farn nad yw cydberthynas y Gweinidog rhwng sectorau sylfaen a sgiliau isel yn fuddiol ar y gorau. .......... Tudalen 25

**Casgliad 15.** Trafodir rhwystredigaeth ynghylch cymorth dysgu i ddiwydiannau a sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth yn ôl Llywodraeth Cymru yn adran flaenorol yr adroddiad hwn. Ond, hyd yn oed heb y gwahaniaeth hwnnw, mae’n glir bod nifer gynyddol o gyflogwyr yn chwilio am adenillion ar eu taliadau Ardoll, ac yn rhwystredig gyda’r cyfyngiadau a allai effeithio ar eu hymdrechion i ddatblygu prentisiaethau o safon maent yn ystyried sy’n addas ar gyfer eu busnes. .......... Tudalen 28

**Casgliad 16.** Mae pryderon cyflogwyr ynghylch addasrwydd ac ansawdd darparwyr hyfforddiant fel rhan o gynlluniau prentisiaeth Cymru yn codi cwestiynau ynghylch gwerth am arian. Mae'r Ardoll wedi rhoi llwybr uniongyrchol i ddarparwyr hyfforddiant i gyflogwyr yn Lloegr ond nid dyna'r achos yng Nghymru. Ar adegau, mae cyflogwyr yn rhwystredig na allant gael mynediad i'r hyfforddiant sy'n addas ar eu cyfer. ........ Tudalen 28

**Casgliad 17.** Mae'r Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru newydd yn gyfrifol am herio a hyrwyddo cynnwys cyrsiau, ond mae'n rhy gynnar i ddweud os bydd eu gwaith yn lleddfu'r rhwystredigaethau a fynegir yma, a galluogi cyflogwyr i deimlo eu bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r rhaglenni prentisiaeth y mae ganddynt fynediad iddynt. Dylai gweithredu argymhelliad 1 yr adroddiad hwn effeithio'n gadarnhaol ar y mater hwn. ........ Tudalen 28

**Casgliad 18.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi gwneud argymhellion ar yr angen i ddarparu cymorth ariannol i brentisiaid. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen newid hyn. ........ Tudalen 29

**Casgliad 19.** Fel y gwnaeth yn yr adroddiad ar yr Ardoll yn 2017, mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau ychwanegol y mae'r Ardoll yn eu rhoi ar y sector cyhoeddus yng Nghymru, a'r angen i barhau i fod yn arloesol yn y gwaith o ddatblygu cymorth ar gyfer staff y gwasanaeth cyhoeddus. ........ Tudalen 31

**Casgliad 20.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y pwysau ar heddluoedd Cymru yn ganlyniad anfwriadol yr Ardoll. Fodd bynnag, ymddengys nad oes llawer o gynnydd wedi bod wrth liniaru'r canlyniadau hynny a dod o hyd i ateb sy'n osgi rhoi heddluoedd Cymru o dan bwysau. ........ Tudalen 31

# 1. Cyflwyniad

**1.** Yn yr Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref yn 2015, cyflwynodd Llywodraeth y DU Ardoll Brentisiaethau, sy'n daladwy gan bob cyflogwr preifat a chyhoeddus cymwys ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Daeth yr Ardoll i rym ar 6 Ebrill 2017.

**2.** Mae'r Ardoll yn daladwy ar filiau cyflogau dros £3 miliwn y flwyddyn a chaiff ei thalu ochr yn ochr â threth incwm ac Yswiriant Gwladol. Bydd yn rhaid i gyflogwyr y mae eu biliau cyflog yn fwy na'r trothwy gyfrannu 0.5% o'u bil cyflogau, yn seiliedig ar gyfanswm enillion cyflogeion, ac eithrio taliadau fel budd-daliadau nad ydynt yn rhai ariannol. Rhoddir lwfans prentisiaeth o £15,000 y flwyddyn i gyflogwyr sy'n talu'r Ardoll i wrthbwyso yn erbyn yr Ardoll a dalwyd.

**3.** Un o fwriadau'r Ardoll oedd annog cyflogwyr i adolygu ac ailwerthuso eu polisïau prentisiaethau, hyfforddiant a datblygu.

**4.** Codwyd nifer o faterion yn sgil cyflwyno'r Ardoll, a arweiniodd at y Pwyllgor yn cychwyn ymchwiliad ym mis Tachwedd 2016. Un o 13 argymhelliad y Pwyllgor oedd adolygu effeithiau'r Ardoll o fewn blwyddyn iddi gael ei chyflwyno. Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwnnw felly cynhaliodd y Pwyllgor ei adolygiad ei hun.

## Cefndir

**5.** Galwodd adolygiad y Pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid, a daeth 14 o ymatebion i law.

**6.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, hefyd.

## Y cyd-destun

**7.** Roedd ffigurau Llywodraeth y DU yn amlygu, ers cyflwyno'r Ardoll ym mis Ebrill 2017, mae nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd yn Lloegr rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2017 (chwarter pedwar o flwyddyn academaidd 2016/17) wedi lleihau bron 60 y cant mewn perthynas â'r un cyfnod yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Er bod ffigurau recriwtio wedi cynyddu o fis Awst 2017 i fis Ebrill 2018, gyda 290,500 o brentisiaethau a ddechreuwyd wedi'u cofnodi, mae hyn yn dal yn cymharu'n anffafriol gyda 440,300 a 384,500 o fusnesau wedi dechrau yn y cyfnod cyfatebol yn 2016/17 a 2015/16, yn y drefn honno.

**8.** Yng Nghymru, mae nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd wedi cynyddu 1.8 y cant ar draws 2016/2017, o gymharu â 2015/16, gan awgrymu bod yr Ardoll wedi cael effaith llai dwys ar y nifer o brentisiaethau a ddechreuir. Gallai hyn fod o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â newid y ffordd y mae cyflogwyr yn ymgysylltu â'r system brentisiaethau yng Nghymru, gyda CITB Cymru yn dweud eu bod yn croesawu sefydlogrwydd a sicrwydd i'w sector yng Nghymru.[1]

**9.** Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y gostyngiad yn y niferoedd yn Lloegr yn rhan o'r broses "naturiol" y mae cyflogwyr yn ei chymryd i edrych ar beth mae'r newidiadau yn ei olygu a sut i wneud y gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir ganddynt.[2] Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi, hyd yn oed flwyddyn yn ddiweddarach, nad yw nifer y prentisiaethau sy'n dechrau wedi cyrraedd eu lefelau cyn yr Ardoll eto.

**10.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod y system brentisiaethau yng Nghymru yn perfformio'n well nag yn Lloegr, gyda niferoedd uwch o brentisiaid yng Nghymru a ffocws ar amddiffyn "brand" y cymhwyster.[3] Cyfeiriodd y Gweinidog at ddadansoddiad o'r system yn Lloegr a oedd yn amlygu methiannau, ond nid oedd yn gallu darparu dadansoddiad o'r system yng Nghymru, sy'n parhau yr un fath ar ôl cyflwyno'r Ardoll.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwahaniaethau rhwng y ddwy wlad ac mae'r ystadegau yn dangos bod nifer y prentisiaethau sy'n dechrau yn Lloegr wedi lleihau. Fodd bynnag, mae o'r farn bod asesiad y Gweinidog o berfformiad y system yng Nghymru yn canolbwyntio gormod ar ei gwahaniaeth â'r system yn Lloegr, yn hytrach na bod yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn.

[1] Ymateb i'r ymgynghoriad 02 CITB
[2] Ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig 112477
[3] Cofnod y Trafodion, para 10

# 2. Cyfathrebu ac Ymgysylltu

## Ymgynghoriad

**11.** Ym mis Mawrth 2017, dywedodd y Pwyllgor fod diffyg ymgynghori rhwng Llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig cyn cyflwyno'r Ardoll.

**12.** Dywedodd cyflogwyr wrth y Pwyllgor, yn ystod ein hymchwiliad cyntaf i'r Ardoll, fod lefel amrywiol o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ôl cyhoeddi'r Ardoll, yn seiliedig yn bennaf ar p'un a oedd cyflogwyr mewn sector blaenoriaeth neu beidio.

**13.** Dywedodd Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth ar y pryd, wrth y Pwyllgor na fyddai'n cynnal gwaith ymgynghori pellach â chyflogwyr ar brentisiaethau gan nad oedd hi'n bwriadu gwneud newidiadau i'r polisi prentisiaethau yng Nghymru.

## Y diweddaraf ar ymgynghori

**14.** Flwyddyn ers y penderfyniad hwnnw, ymatebodd Consortiwm Manwerthu Cymru i ymchwiliad dilynol y Pwyllgor gyda galwad arall am ymgynghoriad, hyd yn oed mor hwyr â hyn.[4]

**15.** Yn ystod ei adolygiad dilynol, clywodd y Pwyllgor fod yr angen am ymgynghori wedi symud i raddau helaeth o drafodaeth ynghylch cyflwyno'r Ardoll i drafodaethau o ran y ffordd orau y gall model cymorth yng Nghymru ddiwallu anghenion amrywiol cyflogwyr Cymru.

**16.** Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach yn trafod yr angen parhaus am gyfraniad eang gan gyflogwyr[5] i adolygu a datblygu'r fframwaith prentisiaethau i sicrhau ei fod yn addas i bawb.

**17.** Dywedodd y GIG fod angen canfod fforymau priodol ar gyfer trafodaethau parhaus ynghylch darpariaeth hyfforddiant a datgysylltiad posibl rhwng gofynion gweithlu GIG Cymru a blaenoriaethau Prentisiaeth Llywodraeth Cymru e.e. Prentisiaethau Lefel 2. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod anhawster yn sicrhau bod iechyd yn cael ei gynrychioli'n briodol drwy fyrddau partneriaeth sgiliau

[4] Ymateb i'r ymgynghoriad 10 Consortiwm Manwerthu Cymru

[5] Ymateb i'r ymgynghoriad 08 Ffederasiwn Busnesau Bach

rhanbarthol. Mae barn fod y "llais" iechyd yn cael ei golli'n rhanbarthol, er mai GIG Cymru yw'r cyflogwr unigol mwyaf yng Nghymru yn genedlaethol.[6]

**18.** Awgrymodd Llywodraeth Cymru fod eu Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru annibynnol dan arweiniad cyflogwyr sydd newydd ei sefydlu[7] yn diwallu'r angen hwn. Mae'r Bwrdd yn dod o dan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o gyflogwyr sy'n talu'r Ardoll a rhai nad ydynt yn talu'r Ardoll, y mae 50 y cant ohonynt yn fusnesau bach a chanolig. Gofynnwyd i'r Bwrdd herio a hyrwyddo cynnwys y rhaglen prentisiaethau.

## Gwybodaeth

**19.** Yn gynnar yn 2017, dywedodd cyflogwyr wrth y Pwyllgor fod angen rhagor o wybodaeth am yr Ardoll, a mwy o ddeialog rhwng Llywodraeth Cymru a chyflogwyr. Ar y pryd, roedd Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â 200 o'r 700 o gyflogwyr a amcangyfrifwyd oedd yn talu'r Ardoll.

## Y wybodaeth ddiweddaraf

**20.** Ym mis Ebrill 2018, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru hyd yma wedi cyfathrebu â thros 400 o gwmnïau ac wedi cyfeirio dros 700 o ymholiadau gan gyflogwyr at Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.[8]

**21.** Fodd bynnag, roedd ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn dal i deimlo nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth. Dywedodd Urdd Gobaith Cymru wrth y Pwyllgor, "Nid ydym yn glir os ydy neu sut mae'r Ardoll Prentisiaethau yn cael eu defnyddio yng Nghymru".[9]

**22.** Galwodd Prifysgolion Cymru ar Lywodraeth Cymru i weithio i roi mwy o eglurhad i gyflogwyr yng Nghymru. Roeddent yn teimlo y dylai neges y Llywodraeth fynd ymhellach na pham bod trefniadau gwahanol yng Nghymru, ac y dylai geisio datblygu dealltwriaeth cyflogwyr o sut mae'r trefniadau gwahanol yn effeithio ar y ddarpariaeth sydd ar gael i gyflogwyr.[10]

**23.** Cytunodd Coleg Caerdydd a'r Fro:

[6] Ymateb i'r ymgynghoriad 07 Conffederasiwn GIG Cymru
[7] Papur tystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
[8] Papur tystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
[9] Ymateb i'r ymgynghoriad 06 Urdd Gobaith Cymru
[10] Ymateb i'r ymgynghoriad 05 Prifysgolion Cymru

> "Communication needs to improve to provide employers with central access to information and improve understanding on the apprenticeship system in Wales, how it works, who it is aimed at and what is involved in delivery."[11]

**24.** Roedd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu swyddogaeth ar-lein newydd sy'n wynebu'r cwsmer, gan alluogi cyflogwyr i gael mynediad i gyngor manwl ar sut y gallant gael gafael ar brentisiaethau.[12] Roedd yr ymrwymiad wedi'i nodi yn nogfen Llywodraeth Cymru "*Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru*",[13] a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017 ynghyd â phecyn cyfathrebu i gyflogwyr.

**25.** Fel rhan o'r adolygiad dilynol, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai, cyn yr haf, yn cyhoeddi "pecyn cymorth cyfathrebu diwygiedig ar gael i gyflogwyr…a'r gynulleidfa darged fydd pob cyflogwr yng Nghymru".[14]

**26.** Dywedodd y Gweinidog hefyd wrth y Pwyllgor fod cyflogwyr yng Nghymru yn gallu cael gafael ar drafodaethau un i un gyda swyddogion i greu cynnig pwrpasol o gymorth a sicrwydd o ansawdd.[15] Ond roedd hefyd yn cydnabod bod angen parhaus am ymyrraeth gyfathrebu dwys iawn[16] i sicrhau bod cyflogwyr yn gwybod beth sydd ar gael iddynt yng Nghymru.

## Ymgysylltu'n ehangach

**27.** Roedd Coleg Caerdydd a'r Fro yn nodi'r angen am ymgysylltu'n ehangach, gan ddweud bod cyfle i hyrwyddo prentisiaethau ymhellach fel cyfle gyrfa sydd ar yr un lefel ag astudio mewn Prifysgol neu Safon Uwch.

**28.** Cytunodd Colegau Cymru, gan ddweud;

> "For apprenticeships to have true parity with FE/HE more must be done to attract large employers to advertise their opportunities to school

[11] Ymateb i'r ymgynghoriad 03 Colegau Cymru

[12] Ymateb i'r ymgynghoriad 02 CITB Cymru

[13] Llywodraeth Cymru, *Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru*; Chwefror 2017

[14] Papur tystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

[15] Cofnod y Trafodion, para 136

[16] Cofnod y Trafodion, para 112

leavers so that apprenticeships are a valued opportunity by parents/guardians."[17]

**29.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn croesawu "rhaglen Rhoi Cynnig Arni" Llywodraeth Cymru[18] sydd wedi ymgysylltu â 55,000 o bobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf, gan roi cyfle iddynt gael profiad galwedigaethol mewn coleg neu ysgol.

**30.** Dywedodd Remploy wrth y Pwyllgor, yn ôl yr ystadegau diweddaraf, dim ond 2.7 y cant o ddysgwyr sydd mewn darpariaeth dysgu seiliedig yn y gwaith a dim ond 1.3% o brentisiaid yng Nghymru sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Mae hyn yn cymharu â 9% yn Lloegr. Mae hyn er y ffaith bod 20% o bobl oed gwaith yng Nghymru ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.[19]

**31.** Dywedodd Remploy ei fod yn croesawu sefydlu Gweithgor Prentisiaeth Cynhwysol Llywodraeth Cymru, a'r Cynllun Gweithredu anabledd Prentisiaethau Cymru y disgwylir i'r grŵp ei lunio.

**32.** Dywedodd Remploy wrth y Pwyllgor ei fod wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu offeryn asesu i nodi rhwystrau posibl a allai fodoli yn y gweithle. Mae'r offeryn wedi'i gynllunio i gefnogi unigolion i aros yn eu prentisiaethau drwy eu galluogi i greu cynllun cymorth unigol.[20]

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei gefnogaeth i farn y Gweinidog na fyddai ymgynghoriad llawn o ganlyniad i Lywodraeth y DU yn cyhoeddi'r Ardoll o reidrwydd wedi bod yn ddymunol.

**Casgliad 3.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen clir dros ymgysylltu'n eang ac yn ystyrlon â chyflogwyr yng Nghymru sy'n dymuno dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r fframwaith sgiliau prentisiaethau, y mae rhai ohonynt yn dal i deimlo nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am sut gall y rhaglen yng Nghymru helpu i ddatblygu eu gweithlu. Mae'r Pwyllgor yn edrych ar Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru newydd i gyflawni'r rôl honno.

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen i gyflogwyr yng Nghymru gael gwybodaeth briodol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi pecyn cyfathrebu diwygiedig ar gyfer cyflogwyr cyn yr haf.

---

[17] Ymateb i'r ymgynghoriad 03 Colegau Cymru

[18] Papur tystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

[19] Llythyr Remploy

[20] Llythyr Remploy

**Casgliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod yr Ardoll wedi canolbwyntio ar ddarparu prentisiaethau, gan greu cyfle i adeiladu ar fomentwm ac ehangu'r drafodaeth i bobl ifanc a'u rhieni. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi'n flaenorol pa mor bwysig yw gwneud hynny mewn ffordd sy'n hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth ac felly'n croesawu'r penderfyniad i sefydlu'r Gweithgor Prentisiaeth Cynhwysol a datblygu'r offeryn asesu.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i adolygu aelodaeth Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru newydd a sicrhau bod llwybrau addas i bob cyflogwr ddylanwadu ar waith y Bwrdd hwn. I'r perwyl hwn, dylai'r Bwrdd weithio'n dryloyw a sicrhau bod ei bapurau a chanfyddiadau yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu mewn modd amserol a phriodol.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i adeiladu ar y momentwm a grëwyd gan yr Ardoll ac annog mwy o ymgysylltu rhwng cyflogwyr a phobl ifanc. Dylai gwaith ymgysylltu geisio hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws fframweithiau, gan gynnwys drwy'r Gweithgor Prentisiaethau Cynhwysol newydd, a ddylai gyhoeddi ei gynllun gweithredu a'i rannu â'r Pwyllgor hwn o fewn 12 mis i'r cyfarfod cyntaf.

# 3. Materion trawsffiniol, disgwyliadau a chludadwyedd

**33.** Yn 2017, roedd y Pwyllgor yn falch o glywed fod yr Ardoll eisoes yn ymddangos i arwain busnesau nad oeddent yn cyflogi prentisiaid yn draddodiadol i ailystyried sut y gallant wneud hynny.

**34.** Fodd bynnag, nod y ffocws newydd yw amlygu pryderon ynghylch cynyddu amrywiaeth y cynlluniau prentisiaeth. Roedd gwahaniaethau trawsffiniol wedi creu problemau o ran alinio a chludadwyedd cymwysterau, gydag effaith bosibl ar yrfaoedd prentisiaid sy'n dymuno symud ar draws y Deyrnas Unedig.

**35.** Roedd y Pwyllgor yn nodi bod nifer o gyflogwyr yn rhwystredig gyda diffyg hyblygrwydd yng nghynllun prentisiaeth Cymru o gymharu â Lloegr, yn enwedig yn y diwydiannau a sectorau hynny nad oeddent yn cyflogi prentisiaid yn draddodiadol.

## Y diweddaraf

**36.** Dywedodd Prifysgolion Cymru wrth y Pwyllgor:

> "A recent report by the National Centre for Universities & Businesses found that UK wide employers are facing challenges in implementing consistent early talent strategies due to the differences in apprenticeship policy in respect to the levy across the nations."

**37.** Dywedodd Consortiwm Manwerthu Cymru wrth y Pwyllgor fod safonau gwahanol mewn systemau ledled y DU wedi creu anawsterau yn llunio manylebau swyddi ar draws y busnes[21] ar gyfer cyflogwyr cenedlaethol.

**38.** Rhoddodd Coleg Caerdydd a'r Fro enghraifft i'r Pwyllgor o gyflogwr cenedlaethol ac arwyddocaol a oedd wedi tynnu'r cynnig o 19 o brentisiaethau yng Nghymru yn ôl o blaid system Lloegr yr oeddent yn teimlo ei bod yn cynrychioli safon eu diwydiant yn well. Roedd y Coleg yn defnyddio'r enghraifft i ailadrodd eu barn bod y cynnig sgiliau prentisiaeth i ryngweithredu rhwng Cymru a Lloegr[22] yn allweddol.

[21] Ymateb i'r ymgynghoriad 10 Consortiwm Manwerthu Cymru

[22] Ymateb i'r ymgynghoriad 13 Colegau Caerdydd a'r Fro

**39.** Dywedodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) wrth y Pwyllgor fod cyflogwyr o'r farn bod y system ers cyflwyno'r Ardoll brentisiaethau yn rhy gymhleth[23] ac yn ogystal â sicrwydd ynghylch cludadwyedd sgiliau, galwodd am ddull gweinyddol cyffredin neu gysondeb rhwng gwledydd er budd busnesau sy'n gweithredu ar draws y DU.

**40.** Amlygodd y CBI, gan fod darparwyr hyfforddiant yn ymgysylltu drwy Lywodraeth Cymru yn hytrach na thrwy'r busnesau eu hunain, nid yw'r pŵer pwrcasu yn nwylo cyflogwyr Ardoll Cymru. Roeddent o'r farn bod hyn yn ffactor gyda rhai cyflogwyr yng Nghymru yn gorfod defnyddio darparwr hyfforddiant yn Lloegr er mwyn diwallu eu hanghenion hyfforddiant, gan eu bod yn teimlo bod yr opsiwn hwnnw yn haws.[24]

**41.** Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) yn teimlo bod safonau Lloegr wedi'u datblygu drwy ymgysylltu â chyflogwyr a bod hynny wedi arwain at gwmnïau mawr, oedd ag amser ac arbenigedd i ddatblygu a sicrhau ansawdd manylebau prentisiaethau, yn rym y tu ôl i greu cymwysterau sy'n cyflawni safonau sy'n benodol i'r cwmni,[25] sy'n llai cludadwy, yn hytrach na chymwysterau fframwaith a ddaeth yn norm.

**42.** Dywedodd Prifysgolion Cymru wrth y Pwyllgor eu bod yn poeni y byddai Prifysgolion yng Nghymru yn cael eu gweld yn ddiymateb oherwydd oedi wrth gyflwyno fframweithiau ac ariannu ar gyfer prentisiaid gradd yng Nghymru, ar adeg pan roeddent yn cael eu cymryd gan ystod eang o gyflogwyr yn Lloegr. Gwnaethant hefyd gyfeirio at sicrwydd ansawdd cadarn o brentisiaethau gradd yng Nghymru. Dywedodd wrth y Pwyllgor y bydd y prentisiaethau gradd cyntaf yn dechrau yng Nghymru eleni ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sef cyfrifiadureg, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch.[26]

**43.** Yn ei phapur i'r Pwyllgor, nododd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes dri maes blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen prentisiaethau:

- "Dileu'r bwlch cymwysterau rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig;
- Hybu cynhwysiant, amrywiaeth a gwaith teg; ac

[23] Ymateb i'r ymgynghoriad 11 CBI Cymru

[24] Ymateb i'r ymgynghoriad 11 CBI Cymru

[25] Ymateb i'r ymgynghoriad 08 FSB

[26] Ymateb i'r ymgynghoriad 05 Prifysgolion Cymru

- Ymateb i'r bylchau o ran sgiliau ar hyn o bryd a'r rhai a rhagwelir."[27]

**44.** Roedd yr adroddiad diweddar ar system prentisiaethau Lloegr, "*The Great Training Robbery*", yn galw am feincnodi diffiniad "prentisiaeth" a dileu unrhyw safonau sy'n methu â chyrraedd y diffiniad hwnnw. Roedd yn galw am symleiddio'r system yn Lloegr.[28]

**45.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod dull Cymru yn diffinio'r "brand" prentis a chynnal ansawdd a chludadwyedd sgiliau dros hyblygrwydd i'r cyflogwr. Yn wahanol i'r system yn Lloegr, ni fu newidiadau i'r dull yng Nghymru ers cyflwyno'r Ardoll.

**46.** Roedd y Gweinidog hefyd yn honni bod y dull yng Nghymru yn llai cymhleth nag yn Lloegr, gyda 30 o fframweithiau yng Nghymru o gymharu â 546 yn Lloegr.[29]

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu o glywed bod rhai cyflogwyr yn dewis darparu prentisiaethau drwy'r system yn Lloegr yn unig. Ymddengys bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i'w canfyddiad bod y system yng Nghymru yn llai hyblyg a ddim yn rhoi dylanwad uniongyrchol iddynt dros gynnwys yr hyfforddiant.

**Casgliad 7.** Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu o glywed bod cludadwyedd cymwysterau yn parhau i fod yn broblem, er roedd yn falch bod hwn yn un maes o dair blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Gweinidog.

**Casgliad 8.** Mae diffyg nodweddion cyffredin rhwng gwledydd y DU yn fater i rai o fusnesau ar draws y DU.

**Casgliad 9.** Yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2018, "Prentisiaethau yng Nghymru", dywedodd y Pwyllgor ei fod yn gefnogol i'r prentisiaethau lefel gradd ac yn croesawu cyflwyno opsiynau gradd prentisiaid newydd. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn derbyn ei argymhellion cynharach ar y mater hwn ac yn edrych ymlaen i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu a darparu prentisiaethau gradd ym mis Hydref 2018.

**Casgliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod dryswch o hyd ynghylch beth mae'r rhaglen brentisiaethau a'r rhaglen sgiliau ehangach yn y gweithlu yn eu cynnig i gyflogwyr yng Nghymru, a chymhlethdod canfyddedig y system.

---

[27] Papur tystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

[28] Richmond, Tom, "The Great Training Robbery: assessing the first year of the apprenticeship levy", Reform, 2018

[29] Cofnod y Trafodion, para 84

**Casgliad 11.** Lle mae gwersi wedi'u dysgu mewn mannau eraill, fel y rhai a nodir yn yr adroddiad "The Great Training Robbery", dylid eu hystyried yng nghyd-destun Cymru a'u gweithredu, lle bo hynny'n berthnasol.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU a gwledydd datganoledig eraill i symleiddio'r broses weinyddol i gyflogwyr ac yn canfod nodweddion cyffredin rhwng dulliau'r DU a gwledydd datganoledig.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried yr argymhellion a wneir yn "The Great Training Robbery", a gweithredu ar y rhai sy'n gymwys yng nghyd-destun Cymru.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi gwybodaeth lefel uchel am ba gymorth ar gyfer dysgu yn y gweithlu sydd ar gael i gyflogwyr yng Nghymru, gan gynnwys prentisiaethau a hyfforddiant ehangach yn y gweithle, ac i rannu'r wybodaeth hon drwy Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru a chyrff neu sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr.

# 4. Meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth

**47.** Yn 2017, clywodd y Pwyllgor, gan fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ei chymorth ar sectorau blaenoriaeth, roedd sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth yn pryderu na fyddent yn gallu cael mynediad i unrhyw adenillion ar eu taliadau Ardoll.

**48.** Roedd ffocws Llywodraeth Cymru ar brentisiaethau lefel uwch (Lefel 3 ac uwch) hefyd yn bryder i rai cyflogwyr nad ydynt yn flaenoriaeth fel manwerthu, y mae eu prentisiaethau wedi'u darparu'n draddodiadol yn Lefel 2.

**49.** Dywedodd y Pwyllgor er ei fod wedi cefnogi'r symudiad i brentisiaethau lefel uwch, gellid gwneud mwy i leddfu ofnau cyflogwyr nad oedd efallai yn ymwybodol o'r dewisiadau eraill oedd ar gael iddynt o ran cymorth ar gyfer dysgu yn y gweithle.

**50.** Fe wnaeth y Pwyllgor ddychwelyd i'r mater prentisiaethau lefel uwch yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2018 "Prentisiaethau yng Nghymru" lle roedd yn edrych ar brentisiaethau yn fwy eang. Trafodir y canfyddiadau yn y sylwadau cynharach yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â phrentisiaethau lefel gradd.

## Prentisiaethau lefel is

**51.** Ym mis Ebrill 2018, dywedodd Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau, Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu prentisiaethau ar gyfer meysydd blaenoriaeth yr economi y maent am roi'r cymorth gorau iddynt. Dywedodd, "So, the free-for-all, if you like, that happens to the east of us isn't happening here".[30] Fodd bynnag, mae hynny'n codi'r mater o sut mae sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth yn cael adenillion ar eu taliadau Ardoll.

**52.** Mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn 2018, dywedodd Consortiwm Manwerthu Cymru wrth y Pwyllgor nad yw'r ffocws ar ddarpariaeth hyfforddiant bob amser yn cyd-fynd â'r diwydiant. Roedd hyn wedi arwain atynt i deimlo bod arian yr Ardoll a dalwyd gan fanwerthwyr i bob pwrpas wedi colli iddyn nhw, er mai manwerthu yw'r sector preifat mwyaf yng Nghymru gyda thros 135,000 o gyflogeion. Roeddent yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu Cronfa Sgiliau Hyblyg, sy'n mynd y tu hwnt i brentisiaethau, i gefnogi hyfforddiant sgiliau manwerthu yn fwy eang.[31]

[30] Cofnod y Trafodion, t104

[31] Ymateb i'r ymgynghoriad 10 WRC

**53.** Mynegodd y CBI bryder nad oedd y ffocws ar brentisiaethau lefel uwch yn ddelfrydol i bawb, a galwodd am i ddarpariaeth lefel 2 bresennol gael ei dileu'n raddol dros gyfnod hwy.[32]

**54.** Roedd Coleg Caerdydd a'r Fro yn cydymdeimlo â'r farn hon, gan ddweud bod angen datrysiad arloesol i gefnogi cyflogwyr gyda diddordeb mewn darparu cymwysterau blaenoriaeth isel.[33]

**55.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod ffocws Llywodraeth Cymru yn gynnydd fertigol. O ganlyniad, roedd yn amharod i gefnogi prentisiaethau Lefel 2 lle nad oes cyfle o fewn y gyflogaeth i fwrw ymlaen ymhellach gan nad dyna eu blaenoriaeth ar hyn o bryd.[34] Yn hytrach, roedd cymwysterau eraill yn y gweithlu ar gael ar gyfer y lefelau is hynny.[35]

**56.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, disgrifiodd y Gweinidog yr Economi Sylfaen lle nad oedd cyflogeion yn gallu trosglwyddo i swyddi medrus uwch. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor o ran y cynllun prentisiaethau yn Lloegr:

> "You can become a barista, and they'll teach you how to make hot coffee. It's quite incredible that that can be labelled and badged now as an apprenticeship. We're not going to put up with that in Wales."[36]

**57.** Heriodd y Pwyllgor y defnydd o'r term "Economi Sylfaen" yn y cyd-destun hwn, a'r rhagdybiaethau a fynegwyd o ganlyniad. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gall yr Economi Sylfaen ddarparu gwaith ystyriol a gwerth chweil lle gall pobl ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy lefel uchel. Mae defnyddio'r term mewn perthynas â swyddi nad oes ganddynt lawer o ddilyniant fertigol, os o gwbl, yn methu â chydnabod gwir werth Sectorau Sylfaen a'r rhai sy'n gweithio ynddo.

**58.** Roedd yr asesiad o'r cynllun prentisiaethau yn Lloegr, "*the Great Training Robbery*" yn nodi proffil oed sy'n newid a symudiad tuag at hyfforddiant lefel uwch a oedd yn awgrymu bod gweithwyr mwy profiadol a hŷn yn gynyddol yn dod yn ganolbwynt y rhaglen prentisiaethau ar draul gweithwyr llai profiadol ac iau. Mae Colegau Cymru a chonsortiwm hyfforddiant B-wbl, yn eu hymatebion

[32] Ymateb i'r ymgynghoriad 11 CBI Cymru
[33] Ymateb i'r ymgynghoriad 13 Coleg Caerdydd a'r Fro
[34] Cofnod y Trafodion, para 51
[35] Cofnod y Trafodion, para 112
[36] Cofnod y Trafodion, para 35

ysgrifenedig i ymgynghoriad y Pwyllgor, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil ar effaith yr Ardoll ar gategorïau oed proffil dechrau dysgwyr.[37]

## Galw newydd

**59.** Dywedodd yr FSB wrth y Pwyllgor eu bod o'r farn bod yr Ardoll wedi creu galw am brentisiaid yn y sector cyflogwyr a chyhoeddus mwyaf, nad oedd ganddynt ddiddordeb yn flaenorol. Roeddent wedi sylwi bod y diddordeb newydd hwn wedi arwain at sgramblo ar gyfer fframweithiau prentisiaethau yr oeddent yn gweld yn broblemus. Dywedodd:

> "This approach brings two dangers. Firstly, that training that would otherwise have been undertaken by larger employers gets reclassified as an apprenticeship for financial reasons. Secondly, that Welsh Government becomes preoccupied with fulfilling the needs of a vocal minority by allocating a greater proportion of apprenticeship funding to them at the expense of SMEs who were previously engaged in the system."[38]

**60.** Galwodd y FSB am hyblygrwydd. Roeddent yn awgrymu adolygiad o'r fframweithiau presennol gydag ymgysylltu eang â chyflogwyr, yn hytrach na gadael i arweinwyr y diwydiant arwain ar y gwaith o ddylunio cynnwys heb gyfeirio at anghenion busnesau bach a chanolig.[39]

**61.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor yn ystod 2017, ei bod wedi "ystyried cynnwys pob un o'n Fframweithiau Prentisiaethau, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn fwy perthnasol i anghenion cyflogwyr".[40] O gofio bod rhanddeiliaid wedi dweud wrth y Pwyllgor y byddai gwaith ymgynghori pellach gyda Llywodraeth Cymru wedi cael ei groesawu, byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb gwybod sut cafodd anghenion y cyflogwyr eu nodi fel rhan o adolygiad y Fframwaith Prentisiaethau.

**Casgliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn gefnogol o anogaeth Llywodraeth Cymru o brentisiaethau lefel uwch i ddiwallu anghenion cyflogwyr yn y dyfodol, yn arbennig yn wyneb yr heriau a chyfleoedd rydym yn rhagweld a ddaw yn sgil awtomeiddio, y cyfeirir ato'n eang fel "y pedwerydd chwyldro

---

[37] Richmond, Tom, "The Great Training Robbery: assessing the first year of the apprenticeship levy"; Reform, 2018

[38] Ymateb i'r ymgynghoriad 08 Ffederasiwn Busnesau Bach

[39] Ymateb i'r ymgynghoriad 08 Ffederasiwn Busnesau Bach

[40] Papur tystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

diwydiannol". Fodd bynnag, mae angen cymwysterau lefel is fel pwynt mynediad ar gyfer staff, ac i ddiwallu anghenion presennol diwydiannau a sectorau.

**Casgliad 13.** Roedd cyflwyno'r Ardoll yn creu disgwyliadau i gyflogwyr sy'n talu'r Ardoll a rhai nad ydynt yn talu'r Ardoll, gan gynnwys rhai nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod mewn sector blaenoriaeth prentisiaeth. Lle nad yw'r disgwyliadau hynny wedi'u bodloni, mae cyflogwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael i lawr.

**Casgliad 14.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod ffocws Llywodraeth Cymru ar ddilyniant prentisiaeth yn rhesymol. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn cytuno â diffiniad y Gweinidog o'r "Economi Sylfaen" ac o'r farn nad yw cydberthynas y Gweinidog rhwng sectorau sylfaen a sgiliau isel yn fuddiol ar y gorau.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir ar yr effaith y bydd ei ffocws ar brentisiaethau lefel uwch yn ei chael ar brentisiaethau lefel is. Lle y bo modd, dylid lliniaru'r effaith a lleihau nifer y prentisiaethau lefel is ar raddfa sy'n unol â darpariaeth trefniadau hyfforddiant amgen.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud i bobl i gael prentisiaethau a fydd yn eu galluogi i gwrdd â'r heriau a ddaw yn sgil awtomeiddio fel rhan o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r ganran o bobl ifanc sy'n mynd i'r gweithlu i ddilyn prentisiaethau, a faint o brentisiaethau a ddefnyddir i uwchsgilio staff presennol.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei rhagdybiaeth bod gweithio yn y sectorau sylfaen yn cyfateb i gapio sgiliau a chyrhaeddiad. Mae'r Pwyllgor yn galw am eglurder gan Lywodraeth Cymru ar yr hyfforddiant a chymorth sydd ar gael yn lle prentisiaethau Lefel 2, a sut mae'r cymwysterau sydd ar gael i gyflogeion yn y sectorau sylfaen yn eu paratoi ar gyfer dysgu lefel uwch.

# 5. Cyllid

## Cyllid Llywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru

**62.** Yn 2017, mynegodd y Pwyllgor bryder fod cyflwyno'r Ardoll yn canolbwyntio ar gymhlethdod y setliad datganoli. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd nodi ei rwystredigaeth gyda chyflwyno'r Ardoll, a'r effaith negyddol y gallai ei chael ar awtomeiddio polisi ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig.

**63.** Roedd adroddiad y Pwyllgor yn 2017 yn manylu'r system newydd o ariannu prentisiaethau yn Lloegr, gyda chyflogwyr yn defnyddio "cyfrifon digidol" o daliadau Ardoll ynghyd â thaliad ychwanegol o 10% gan Lywodraeth y DU.

**64.** Cafodd Llywodraeth Cymru gyfran o'r Ardoll yn seiliedig ar y boblogaeth. Fodd bynnag, fel swm canlyniadol pellach Barnett, cafodd yr hyn a oedd yn cynrychioli cyfran fawr o'r arian ychwanegol eu didynnu wedyn o ddyraniad sylfaenol Barnett i Gymru gan arwain at ddim arian ychwanegol amlwg i Gymru o ganlyniad i'r Ardoll.[41]

**65.** Ar ben hynny, yn 2016, fe wnaeth y Gweinidog ar y pryd amcangyfrif y byddai talu'r Ardoll yn costio tua £30 miliwn i gyrff cyhoeddus Cymru[42].

**66.** Ym mis Tachwedd 2016, ceisiodd Llywodraeth y DU fynd i'r afael â phryderon ariannol y gwledydd datganoledig drwy ddarparu arian ychwanegol am dair blynedd. Yn ogystal â'r symiau a ddangosir uchod, dywedodd Llywodraeth y DU eu bod yn ymrwymo cyllid ychwanegol i Gymru o £13.7m yn y flwyddyn gyntaf a £6.2m yn yr ail flwyddyn i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyfran deg o unrhyw danwariant sy'n digwydd yn y cyfnod o addasu.[43]

| Cyllid Ardoll y DU i Lywodraeth Cymru (£m) | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|
| **Cyfran poblogaeth o gyllid yr ardoll y DU i Lywodraeth Cymru** | 128.0 | 133.0 | 138.0 |
| **Cyllid Ardoll ychwanegol y DU i Lywodraeth Cymru** | 13.7 | 6.2 | 0.0 |
| **Cyfanswm cyllid Ardoll y DU i Lywodraeth Cymru** | 141.7 | 139.2 | 138.0 |

Tabl 1. Cyllid Ardoll y DU i Lywodraeth Cymru

[41] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Ymchwiliad i'r Ardoll Brentisiaethau; Mawrth 2017

[42] Y Cyfarfod Llawn 15 Tachwedd 2016

[43] Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Ymateb i gwestiwn seneddol, 1 Rhagfyr 2016

**67.** Ychwanegodd Llywodraeth y DU, ar ôl 2019-20, unwaith y bydd yr Ardoll wedi'i gosod, dylai gweithrediaeth arferol Fformiwla Barnett ddarparu canlyniad tebyg.[44]

## Y diweddaraf

**68.** Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ei hail flwyddyn o gyfnod ariannu o dair blynedd, ac yn y flwyddyn olaf o'r cyllid ychwanegol.

**69.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ei bod wedi cynyddu ei buddsoddiad mewn prentisiaethau o £96 miliwn yn 2016-17 i £115.5 miliwn yn 2017-18. Bydd £115 miliwn arall yn cael ei fuddsoddi yn 2018-19 "er mwyn sicrhau bod cyflogwyr bach, canolig a mwy yn cael mynediad at brentisiaethau mewn meysydd blaenoriaeth".[45]

**70.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor hefyd ei bod o'r farn bod y rhaglen prentisiaethau yn ei lle er mwyn cael ei hariannu'n llawn ar y lefelau presennol. Cafodd unrhyw gyllid a ddyrannwyd i Gymru o ganlyniad i'r Ardoll ond na chafodd ei ddefnyddio ar gyfer y rhaglen prentisiaethau ei ddychwelyd i gyllideb Llywodraeth Cymru i leddfu effaith ariannol yr Ardoll ar wasanaethau cyhoeddus ac ariannu blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.[46]

## Gwerth am arian i gyflogwyr

**71.** Dywedodd CIPD Cymru wrth y Pwyllgor fod ei aelodaeth yn pryderu ynghylch costau cynyddol. Dywedodd fod llawer o'r farn negyddol am yr Ardoll oherwydd ei bod wedi disodli cyllid oedd o'r ar gael yn flaenorol gan y llywodraeth yn annigonol.[47]

**72.** Dywedodd Urdd Gobaith Cymru wrth y Pwyllgor eu bod o'r farn bod yr Ardoll "yn cael ei golli yng nghoffrau'r Deyrnas Unedig" a'u bod yn credu "nad oes adenillon uniongyrchol yn deillio o'r drefn bresennol".[48]

**73.** Fodd bynnag, roedd Coleg Caerdydd a'r Fro yn teimlo bod y ffocws a grëwyd drwy gyflogwyr yn talu'r Ardoll wedi creu llawer mwy o ddiddordeb yn defnyddio

[44] Datganiad i'r Wasg Llywodraeth y DU 14 Tachwedd 2016
[45] Papur tystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
[46] Cofnod y Trafodion, paragraffau 15 a 17
[47] Ymateb i'r ymgynghoriad 09 CIPD Cymru
[48] Ymateb i'r ymgynghoriad 06 Urdd Gobaith Cymru

prentisiaethau ac awydd cryf i sicrhau bod y system prentisiaethau yn sicrhau adenillion llawn neu rannol ar fuddsoddiad.

**74.** Fe wnaethon nhw hefyd ddweud bod y penderfyniad i ddefnyddio prentisiaethau wedi ymestyn y tu hwnt i'r arena Adnoddau Dynol a bod uwch wneuthurwyr penderfyniadau cyllid yn craffu arno'n gynyddol.[49]

**75.** Mae'r sylw o newydd gan gyflogwyr yn y maes hwn wedi arwain hefyd am wneud cymhariaeth rhwng darpariaeth yng Nghymru a Lloegr, gyda rhai aelodau CIPD yn dod i'r casgliad bod y fframweithiau yn Lloegr yn llawer ehangach ac yn cynnwys mwy o lefelau ac yn gyffredinol yn cael eu darparu gan ddarparwyr hyfforddiant o safon well. Roeddent hefyd yn teimlo bod ansawdd y darparwyr yng Nghymru yn wael, bod y fframweithiau yn gyfyngedig a bod rhwyddineb gallu ymgysylltu'n uniongyrchol â darparwyr yn hytrach na bodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn rhwystredig.[50]

**76.** Roedd CBI Cymru o'r farn bod y trefniadau prentisiaeth presennol yn golygu nad yw'r pŵer prynu yn nwylo cyflogwyr ardoll Cymru a galwodd ar ddarparwyr hyfforddiant i arwain o'r blaen a gwneud yn siŵr eu bod yn cynnig prentisiaethau o safon uchel sy'n addas i fusnesau lleol.[51]

**Casgliad 15.** Trafodir rhwystredigaeth ynghylch cymorth dysgu i ddiwydiannau a sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth yn ôl Llywodraeth Cymru yn adran flaenorol yr adroddiad hwn. Ond, hyd yn oed heb y gwahaniaeth hwnnw, mae'n glir bod nifer gynyddol o gyflogwyr yn chwilio am adenillion ar eu taliadau Ardoll, ac yn rhwystredig gyda'r cyfyngiadau a allai effeithio ar eu hymdrechion i ddatblygu prentisiaethau o safon maent yn ystyried sy'n addas ar gyfer eu busnes.

**Casgliad 16.** Mae pryderon cyflogwyr ynghylch addasrwydd ac ansawdd darparwyr hyfforddiant fel rhan o gynlluniau prentisiaeth Cymru yn codi cwestiynau ynghylch gwerth am arian. Mae'r Ardoll wedi rhoi llwybr uniongyrchol i ddarparwyr hyfforddiant i gyflogwyr yn Lloegr ond nid dyna'r achos yng Nghymru. Ar adegau, mae cyflogwyr yn rhwystredig na allant gael mynediad i'r hyfforddiant sy'n addas ar eu cyfer.

**Casgliad 17.** Mae'r Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru newydd yn gyfrifol am herio a hyrwyddo cynnwys cyrsiau, ond mae'n rhy gynnar i ddweud os bydd eu gwaith yn lleddfu'r rhwystredigaethau a fynegir yma, a galluogi cyflogwyr i

[49] Ymateb i'r ymgynghoriad 13 Coleg Caerdydd a'r Fro
[50] Ymateb i'r ymgynghoriad 09 CIPD Cymru
[51] Ymateb i'r ymgynghoriad 11 CBI Cymru

deimlo eu bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r rhaglenni prentisiaeth y mae ganddynt fynediad iddynt. Dylai gweithredu argymhelliad 1 yr adroddiad hwn effeithio'n gadarnhaol ar y mater hwn.

**Casgliad 18.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi gwneud argymhellion ar yr angen i ddarparu cymorth ariannol i brentisiaid. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen newid hyn.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn i Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru archwilio sut y gall cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant gydweithio i wella canlyniadau gwerth am arian sy'n cynrychioli ansawdd da ac sydd fwyaf addas i'r cyflogwr, tra'n diogelu cludadwyedd cymwysterau.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhelliad blaenorol yn y ddogfen *Prentisiaethau yng Nghymru*, Chwefror 2018, lle gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn mewn egwyddor gyda'r galwad am gardiau bws neu drên rhatach i brentisiaid, yn dibynnu ar ganlyniadau ei ymgynghoriad ar "deithiau bws rhatach ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru". Gan fod crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi "cefnogaeth gref iawn o blaid cynnwys pobl a oedd yn dilyn rhaglenni prentisiaeth cydnabyddedig (85%)", mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad i gael cardiau bws neu drên rhatach i brentisiaid.

# 6. Yr effaith ar y sector cyhoeddus yng Nghymru

**77.** Yn ei adroddiad ym mis Mawrth 2017, dywedodd y Pwyllgor mai amcangyfrif cost yr Ardoll i gyflogeion y sector cyhoeddus fyddai tua £30 miliwn. Roedd rhanddeiliaid yn pryderu ynghylch yr effaith y byddai'r gost ychwanegol hon yn ei chael ar gyllidebau sydd eisoes o dan bwysau.

**78.** Roedd cyflogwyr y sector cyhoeddus yn rhannu pryderon y sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth na fyddent yn gweld adenillion ar daliadau eu hardoll. Fodd bynnag, awgrymodd Llywodraeth Cymru y gellid herio cyflogwyr y sector cyhoeddus i ganfod ffyrdd newydd o ddefnyddio prentisiaethau fel rhan o'u gwaith cynllunio'r gweithlu.

## Y diweddaraf

**79.** Yn ystod yr ymchwiliad dilynol hwn, dywedodd CLlLC wrth y Pwyllgor mai'r gost i awdurdodau lleol Cymru oedd £18m yn 2017-18 a fydd yn cynyddu wrth i'r bil cyflogau gynyddu yn 2018-19 ac yn y blynyddoedd dilynol.

**80.** Roedd CLlLC yn dadlau, wrth i gost yr Ardoll gynyddu, byddai'r cyllid sydd ar gael ar gyfer biliau cyflog prentisiaid newydd yn lleihau. Maent yn dweud bod hyn yn cael effaith negyddol ar y gallu i gyflogi prentisiaethau ac ymestyn dulliau.

**81.** Gwnaethant ailadrodd eu galwad yn 2017 i'r Ardoll gael ei datgymhwyso i bob ysgol a gynhelir.[52]

**82.** Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru wrth y Pwyllgor fod eu pryderon yn parhau. Roedd yn teimlo, oherwydd maint y sector cyhoeddus yng Nghymru, ei bod hi'n bosibl bod taliadau Ardoll y gweithlu yn llawer uwch yn y sector cyhoeddus na'r rhan fwyaf o'r sector preifat.[53]

**83.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod angen iddynt fod yn ystyriol bod yr ardoll wedi'i chyflwyno ar adeg lle mae Llywodraeth y DU wedi torri cyllid Cymru ar gyfer gwasanaethau o ddydd i ddydd o bron i £1 biliwn yn nhermau real ers 2010-11.

[52] Ymatebion i'r ymgynghoriad 14 CLlLC

[53] Ymateb i'r ymgynghoriad 07 Conffederasiwn GIG Cymru

**84.** Roedd y Pwyllgor yn pryderu o glywed am effaith yr Ardoll Brentisiaethau ar yr heddluoedd yng Nghymru. Dywedodd Cadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru, y Prif Gwnstabl Matt Jukes, wrth y Pwyllgor fod y pedwar heddlu yng Nghymru yn cyfrannu tua £2 miliwn y flwyddyn tuag at ardoll brentisiaethau Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, gan nad yw plismona wedi'i ddatganoli i Gymru, ac nad yw hyfforddiant ac addysg yn rhan o gyfrifoldebau Llywodraeth y DU, nid yw prentisiaethau ar gyfer yr heddlu yn cael eu cefnogi gan yr un llywodraeth. Dywedodd y Prif Gwnstabl wrth y Pwyllgor y bydd prentisiaethau lefel gradd yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer swyddogion yr heddlu cyn bo hir yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, er y gall heddluoedd yn Lloegr gael cyllid o £24,000 fesul swyddog dan hyfforddiant dros brentisiaethau heddlu tair blynedd, byddai angen i heddluoedd Cymru ariannu'r symiau cyfatebol o £25.8 miliwn (£8.6 miliwn y flwyddyn) eu hunain. Mae costau'r radd yng Nghymru wedi lleihau i £2.8 miliwn y flwyddyn, ond bydd yr effaith yn dal i fod yn sylweddol.[54]

**85.** Ategodd Llywodraeth Cymru ei safbwynt i'r Pwyllgor gan ddweud nad oes cytundeb ar waith y dylai Llywodraeth Cymru ariannu hyfforddiant swyddogion yr heddlu na swyddogion cymorth cymunedol[55] a'u bod yn credu mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw ariannu prentisiaethau yn y maes hwnnw.[56] Cadarnhaodd y Gweinidog fod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r Swyddfa Gartref ar y mater hwn.[57]

**86.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Cartref ynglŷn â'r mater ym mis Mai, ond nid oedd ymateb wedi dod i law ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Casgliad 19.** Fel y gwnaeth yn yr adroddiad ar yr Ardoll yn 2017, mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau ychwanegol y mae'r Ardoll yn eu rhoi ar y sector cyhoeddus yng Nghymru, a'r angen i barhau i fod yn arloesol yn y gwaith o ddatblygu cymorth ar gyfer staff y gwasanaeth cyhoeddus.

**Casgliad 20.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y pwysau ar heddluoedd Cymru yn ganlyniad anfwriadol yr Ardoll. Fodd bynnag, ymddengys nad oes llawer o gynnydd wedi bod wrth liniaru'r canlyniadau hynny a dod o hyd i ateb sy'n osgi rhoi heddluoedd Cymru o dan bwysau.

---

[54] Llythyr gan Gadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

[55] Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

[56] Cofnod y Trafodion, para 174

[57] Cofnod y Trafodion, para 180

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod ffyrdd arloesol o gefnogi prentisiaethau a dysgu arall yn y gweithlu ar gyfer nifer cynyddol o rolau.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref i gynyddu eu hymdrechion i ddatrys y mater o ariannu prentisiaethau'r heddlu yng Nghymru, gan sicrhau bod yr heddluoedd yn cael gwybod yn llawn am unrhyw gynnydd o ran y trafodaethau.